# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)13-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 5 Mai 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Ty

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

**(i) BC(3)12-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 28 Ebrill 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)13-09(p1)**

3.1 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.2 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 5 a 6 Mai 2009.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)13-09(p2)**

3.3 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)12-09(p3)**

3.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau busnes heblaw busnes y Llywodraeth a ganlyn:

Cynnig i ethol Aelod i'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth (1 munud) ar 13 Mai; a

Dadl a ohiriwyd ar 29 Ebrill 2009: NDM4194 Brynle Williams (Gogledd Cymru): Gwyrdroi Dirywiad y Wenynen Fêl (30 mins) ar 3 Mehefin.

3.5 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Trefn Busnes**

**Papur ar y System Bwyllgorau o Hydref 2009 ymlaen - BC(3)13-09(p4)**

4.1 Ar 28 Ebrill, bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod papur yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer ail-lunio'r system bwyllgorau a gofynnodd Rheolwyr Busnes am fwy o fanylion ynglŷn â'r opsiynau ar gyfer trefn y pwyllgor busnes. Bu'r Pwyllgor yn ystyried amserlen ddrafft y Pwyllgor ar gyfer cyfarfodydd o dymor yr hydref ymlaen a'r opsiynau ar gyfer lleihau maint pwyllgorau yn y cyfarfod heddiw. Cytunodd y pwyllgor i ail-edrych ar y materion hyn mewn pythefnos, wedi iddynt ymgynghori â'r pleidiau.

**5. Deddfwriaeth**

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ac Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) - BC(3)13-09(p5a a p5b)**

5.1 Nododd y Pwyllgor Busnes yr Adroddiad Cyfnod 1 ar y Mesur Arfaethedig Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**